

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 6 Mehefin 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

**CATEGORI:
LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL**

Teitl: Llwybr ar gyfer Cyfathrebu Estynedig ac Amgen

Dyddiad dod i ben / Adolygu: Amherthnasol

I'w weithredu gan:
Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Rheolwr Therapiau Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Angen gweithredu erbyn: Ar unwaith

Anfonir gan: Ruth Crowder, Prif Gynghorydd Therapiau

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:
Ruth Crowder, Prif Gynghorydd Therapiau, y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd, 4ydd Llawr, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, 03000 250972, healthcarescienceandtherapies@gov.wales

Dogfen(nau) amgaeedig: Canllawiau ar y Llwybr ar gyfer Cyfathrebu Estynedig ac Amgen



Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddor Iechyd
Rheolwr Therapïau Ymddiriedolaeth GIG Felindre

6 Mehefin 2019

Annwyl Gyfeillion

WHC/2019/018– Llwybr ar gyfer Cyfathrebu Estynedig ac Amgen (AAC)

1. Gweler y canllawiau amgaeedig ar gyfer darparu cyfarpar Cyfathrebu Estynedig ac Amgen (AAC). Mae'r llwybr hwn yn ffrwyth cydweithredu rhwng partneriaid dros gyfnod o flwyddyn. Nod y llwybr newydd yw sicrhau bod pobl, y mae angen cyfarpar cyfathrebu a chymorth arnynt, yn gallu cael cymorth gan wasanaethau therapi lleferydd ac iaith eu byrddau iechyd mor agos â phosibl i'w cartrefi; a hefyd bod mynediad rhwydd at y Gwasanaeth Cymhorthion Arbenigol AAC Cenedlaethol i'r rheini y mae angen cyfarpar cymhleth technoleg uwch arnynt.
2. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd yn rhaid i'r byrddau iechyd ddarparu'r gwasanaethau lleol fel y'u nodir yn y llwybr hwn, gan ymgysylltu â'r gwasanaeth cyfarpar cymhleth os bydd angen.
3. Rhoddir cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau byrddau iechyd lleol, gan gynnwys asesiadau ac ymyraethau therapi lleferydd ac iaith a darparu cyfarpar technoleg isel. Darperir y manylion am hyn ar wahân.

Cam Gweithredu

4. Dylai'r byrddau iechyd sicrhau bod pob aelod o staff, sy'n ymwneud â darparu cymorth cyfathrebu a chyfarpar AAC, yn gwybod am y canllawiau hyn.

Yn gywir

RUTH CROWDER



Cymru Iachach: Llwybr ar gyfer Darparu Offer Cyfathrebu a Chymorth i ddefnyddio'r Offer hwnnw

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Bydd y llwybr hwn yn cefnogi pobl yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu ar lafar ac y gellir eu cynorthwyo gydag offer cyfathrebu. Bydd darparu cyfarpar a chymorth yn eu galluogi i fyw a chyfathrebu mor annibynnol â phosibl, a chymryd rhan yn eu cymunedau a'u cymdeithas. Bydd y gwasanaeth yn galluogi pobl sy'n defnyddio'r offer i gyfathrebu ym mhob agwedd ar eu bywyd bob dydd, er mwyn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- 1.2 Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Model Cymdeithasol o Anabledd yn 2002, sy'n gwahanu anabledd oddi wrth nam. Mae'r Model Cymdeithasol yn ddull cadarnhaol o ymdrin ag anabledd ac yn canolbwyntio ar ddileu'r rhwystrau i gydraddoldeb. Mae cyfathrebu [Rhyddid mynegiant] yn hawl ddynol sylfaenol ac mae wedi'i ymgorffori yn Erthygl 19 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. I'r perwyl hwn, efallai y bydd ar unigolion sydd â namau cyfathrebu angen cyfarpar estynedig neu amgen i wireddu eu potensial i gyfathrebu.
- 1.3 Dylid darparu'r offer mwyaf priodol i ddiwallu anghenion unigolyn. Efallai na fydd yr hyn sy'n briodol i un, yn briodol i bawb. Dylai'r gwasanaethau a ddarperir fod mor agos at gartref person â phosibl. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd byrddau iechyd yn darparu'r gwasanaethau lleol fel y'u nodir ar y llwybr hwn ac yna bydd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth cyfarpar cymhleth os bydd angen.

2.0 Beth yw Cyfarpar Cyfathrebu?

- 2.1 Offer cyfathrebu yw unrhyw offer sy'n galluogi person i gyfathrebu drwy gyfleu neges yn ychwanegol at neu yn lle'r lleferydd. Gall gael ei ddefnyddio gan bobl nad oes ganddynt leferydd neu nad yw eu lleferydd yn ddigon i gyfathrebu'n effeithiol. Diben y cyfarpar hwn yw cynorthwyo person i gyfathrebu yn ei fywyd beunyddiol a'i helpu i gyflawni canlyniadau personol. At ddibenion y llwybr hwn, diffinnir cyfarpar cyfathrebu naill ai fel 'technoleg isel' neu 'uwch dechnoleg'. Gall y cyfarpar sydd ei angen newid dros oes unigolyn.
- 2.2 Gall **Cyfarpar Cyfathrebu Technoleg Isel** fod yn syml neu'n gymhleth a dylai fod wedi'i bersonoli ac yn medru cael ei addasu'n llawn i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Gall offer technoleg isel syml gynnwys adnoddau ffisegol, a all fod ar bapur ac wedi'u hargraffu. Gan amlaf, defnyddir offer cyfathrebu syml ar gyfer gweithgaredd penodol ac mae ei eirfa'n gyfyngedig.
- 2.3 Gall cyfarpar technoleg isel fwy cymhleth gynnwys llawer o eirfa, wedi'i threfnu mewn fformat a osodir ymlaen llaw gyda chanllawiau strwythuredig. Gall hyn fod wedi'i gynllunio ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith, yn ogystal ag anghenion cyfathrebu sydd â swyddogaeth benodol. Mae gan rai offer nodweddion technolegol cyfyngedig a nifer cyfyngedig o negeseuon llafar wedi'u recordio. Gall fod delweddau/symbolau wedi'u hargraffu arno neu destun sy'n gysylltiedig â'r negeseuon, gan alluogi'r

unigolyn i ddewis y neges a ddewiswyd i siarad. Mae rhai mathau o offer cyfathrebu yn darparu ffynhonnell sain yn lle llais. Gall dysgu defnyddio offer technoleg isel fod mor anodd â dysgu iaith newydd ac mae angen ei haddysgu.

Gallai cyfarpar cyfathrebu technoleg isel gynnwys:

- Pen a phapur neu fwrdd cadach sych.
- Cardiau fflach.
- Llyfrau cyfathrebu gyda llythrennau, geiriau, lluniau a/neu symbolau (a all gynnwys llyfr cyfathrebu aml-dudalen gyda'r eirfa wedi'i threfnu fesul pwnc).
- Symbolau diriaethol (e.e. gwrthrychau go iawn, gwrthrychau bychain neu rannau o wrthrychau).
- Bwrdd cyfathrebu gyda'r wyddor neu luniau wedi eu trefnu mewn fformat grid.
- Ffrâm bwyntio llygaid â chod lliw.
- Laryncs artiffisial neu fwyhadur llais

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

- 2.4 Mae creu offer cyfathrebu technoleg isel wedi'i bersonoli sy'n addas i'r diben yn gofyn am sgiliau ac amser staff yn ogystal â mynediad at, er enghraifft: meddalwedd arbenigol, argraffydd lliw, lamineiddiwr. Mae hefyd yn gofyn am ganfod a threfnu geirfa bersonol i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Lle mae hyn wedi'i ddatblygu'n electronig, dylid ei storio ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol neu fynediad angenrheidiol a'i rannu â chydweithwyr mewn mannau pontio (e.e. newid ysgol neu dîm gofal). Gellir defnyddio codau lliw ar gyfer geirfa hefyd a gall wella defnydd effeithiol ac effeithlon unigolyn o'r system dechnoleg isel.
- 2.5 Darperir cyfarpar technoleg isel drwy dîm y bwrdd iechyd lleol sy'n cefnogi'r person sydd ag anghenion cyfathrebu. Bydd y therapydd lleferydd ac iaith lleol yn asesu anghenion pob unigolyn ac yn gwneud penderfyniad clinigol priodol. Os oes angen offer, bydd ef/hi wedyn naill ai'n darparu'r cyfarpar technoleg isel syml neu gymhleth hwnnw yn uniongyrchol neu'n cysylltu â'r darparwr cyfathrebu uwch-dechnoleg gymhleth fel y bo'n briodol. Efallai y bydd y broses yn gofyn am dreialu opsiynau amgen ar gyfer cyfarpar er mwyn sicrhau'r ateb cynaliadwy cywir.
- 2.6 Mae **Cyfarpar Cyfathrebu Uwch-dechnoleg Cymhleth** yn seiliedig ar dechnoleg gyfrifiadurol gan ddarparu geirfa, delweddau, symbolau, testun cyfathrebu a/neu allweddell ar y sgrin. Maent yn cynnwys sawl nodwedd, yn aml gydag allbwn llais wedi'i syntheseiddio, opsiynau mynediad amgen, ychwanegion, ategolion a gosodiadau. Mae'r holl gyfarpar cyfathrebu uwch-dechnoleg cymhleth yn cynnwys caledwedd (cyfrifiadur mewnol/taled/chwyddseinyddion) a meddalwedd rhaglenadwy (system weithredu a meddalwedd/apiau cyfathrebu arbenigol) wedi'i addasu i ddiwallu anghenion yr unigolyn
- 2.7 Gall fod yn briodol defnyddio peth caledwedd a meddalwedd prif ffrwd sydd ar gael yn eang, megis dyfais taled, i'w ddefnyddio fel cyfarpar cyfathrebu mewn rhai sefyllfaoedd. Fel arfer, mae angen mynediad i Wi-fi er mwyn sefydlu offer, ymyrraeth, diweddariadau a darpariaeth wrth gefn ar gyfer offer cyfathrebu uwch-dechnoleg cymhleth.

2.8 Bydd darparu offer uwch-dechnoleg cymhleth yn cael ei ddarparu drwy'r gwasanaeth Cyfathrebu Amgen a Chynyddol (AAC) Arbenigol Cenedlaethol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Technoleg Gynorthwyol Electronig (EAT). Yn ogystal â chyfarpar cyfathrebu, mae'n bosibl y bydd angen i rai unigolion hefyd gael mynediad amgylcheddol a/neu arbenigol i gyfrifiaduron, sydd hefyd yn cael ei ddarparu fel rhan o'r gwasanaeth EAT. Mae hyn yn caniatáu gwasanaeth cyfannol, teg, unwaith i Gymru.

3.0 Rheoli Cyfarpar Cyfathrebu

3.1 Mae'n ofynnol i bobl sy'n defnyddio offer cyfathrebu ei fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn gweithio'n dda ac yn addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Dylai'r gwaith o asesu a darparu cyfarpar fod yn amserol a dylai gydymffurfio ag Amseroedd Atgyfeirio i Driniaeth Llywodraeth Cymru.

3.2 Dylai sefydliadau, y Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Cenedlaethol Arbenigol AAC/EAT, sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n defnyddio offer cyfathrebu, fod â system gadarn ar gyfer rheoli cyfarpar yn achos cyfathrebu uwch-dechnoleg a thechnoleg isel, yn unol â chanllawiau rheoleiddio priodol. Gallai hyn gynnwys catalog electronig o gyfarpar a chofnod neu gronfa ddata o'r bobl a gyflenwir gyda'r offer cyfathrebu er mwyn olrhain, cynnal ac adolygu'r cyfarpar a ddarperir.

3.3 Dylai rheoli cyfarpar gynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- Caffael offer.
- Storio'n saff ac yn ddiogel.
- Monitro a chynnal a chadw parhaus sy'n dwyn i ystyriaeth newidiadau i reoliadau neu rybuddion diogelwch.
- Gwirio diogelwch yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol.
- Benthyciad, yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Cynnal a diweddarau meddalwedd yn ôl y gofyn.
- Cadw copïau wrth gefn ac arbed geirfaoedd personol.
- Dadhalogi a rheoli heintiau.
- Adalw/ailgylchu/ail-ddarparu offer.
- Datgomisiynu offer.

4.0 Cymorth i Bobl sy'n Defnyddio Offer Cyfathrebu

4.1 Efallai bydd angen cymorth ar bobl sydd angen ac sy'n defnyddio cyfarpar cyfathrebu i'w galluogi i gyflawni eu potensial cyfathrebu a'u canlyniadau personol. Mae darparu pecyn o gymorth i berson sy'n colli neu sydd wedi colli ei lais neu sy'n ei chael hi'n anodd siarad yn aml yn golygu gweithio gyda theulu, ffrindiau a gofawyr yr unigolyn, ac ar brydiau cylch ehangach o gefnogaeth. Mae hyn er mwyn i'r unigolyn gael y defnydd mwyaf posibl o ddefnyddio'r cyfarpar cyfathrebu ac elwa ohono.

4.2 Dylid darparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant i gynorthwyo unrhyw un arall y mae'r unigolyn yn rhyngweithio ag ef, gan gynnwys y teulu, ffrindiau, gofawyr ffurfiol ac anffurfiol, a'r staff sy'n gweithio gyda nhw, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Dylai'r gefnogaeth honno fodloni anghenion penodol a chanlyniadau lles yr unigolyn sy'n defnyddio'r offer cyfathrebu. Gellir cael gafael ar y cymorth hwn ar wahanol lefelau: Cyffredinol, wedi ei dargedu ac arbenigol; mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol gamau yn dibynnu ar anghenion y rhai dan sylw ac mae'n arbennig o bwysig ar adegau pontio (megis newid neu adael yr ysgol neu newid tîm gofal) neu mewn cyflyrau sy'n datblygu'n gyflym.

4.3 Gall fod angen cymorth ar y person i:

- gymryd rhan yn effeithiol yn y broses asesu.
- sicrhau eu bod yn derbyn y cyfarpar cyfathrebu mwyaf priodol ar ôl asesu ac adnabod eu hanghenion cyfathrebu.
- sicrhau bod y cyfarpar cyfathrebu'n cael ei baratoi, ei addasu a'i ddiweddarau'n briodol.
- sicrhau eu bod yn datblygu'r sgiliau i weithredu eu hoffer cyfathrebu.
- sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'u hiaith a'u potensial cyfathrebu.
- ddefnyddio eu hoffer cyfathrebu i gyflawni eu canlyniadau personol a'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- eu helpu i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau o ran cyfathrebu, gan hefyd gymryd cyfrifoldeb dros adael i'r newidiadau ddigwydd pan fo newid yn digwydd a chyda mynediad i broses adolygu briodol.

4.4 Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar y rhwydwaith o gymorth e.e. teulu, gofalwyr, ffrindiau, athrawon a chyflogwyr i ddysgu:

- sut i gyfathrebu a rhyngweithio â'r person sy'n defnyddio'r offer cyfathrebu.
- sut i osod a chynnal a chadw'r offer cyfathrebu yn ddyddiol.
- sut i helpu'r person i ddatblygu ei sgiliau cyfathrebu gan ddefnyddio'r cyfarpar cyfathrebu.
- â phwy i gysylltu os bydd unrhyw anawsterau.

4.5 Mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol:

- ddatblygu a chynnal gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â chyfarpar cyfathrebu a chymorth, megis asesu a'r offer sydd ar gael ar y pryd
- ragnodi'r offer cyfathrebu mwyaf priodol i ddiwallu anghenion unigolion.
- (Ar gyfer gweithwyr proffesiynol byrddau iechyd lleol) adnabod pa bryd y mae'n briodol i'r gwasanaeth cyfarpar Arbenigol Cenedlaethol gymryd rhan.
- sicrhau cost-effeithiolrwydd drwy ddefnyddio unrhyw fanc o offer AAC, treialu offer i ganfod a chadarnhau ei addasrwydd ar gyfer yr unigolyn.
- sicrhau bod proses ar waith i reoli a chynnal a chadw'r cyfarpar cyfathrebu a chynnal asesiadau risg priodol.
- bod yn effro i unrhyw negeseuon diogelwch gan gyrrff rheoleiddio a sicrhau y gweithredir ar y rhain.

4.6 Mae'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau hyn wedi'u nodi mewn fframweithiau cymhwysedd arbenigol a chyffredinol perthnasol y gellir eu datblygu'n lleol, megis yr IPAACKiau (Proffilio Unigol o Wybodaeth a Sgiliau AAC). Gellir datblygu fframweithiau eraill ledled Cymru neu ar lefel leol. Dylai pob gweithdrefn gydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau cyfredol ac at y dyfodol

5.0 Y Llwybr

- 5.1 Mae'r llwybr cymorth ar gyfer person yn cychwyn gan nodi angen am gymorth i gyfathrebu'n effeithiol, ac yna atgyfeiriad at wasanaethau lleol. Bydd y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith lleol yn asesu anghenion pob unigolyn ac yn gwneud penderfyniadau clinigol priodol, a dilynir hynny drwy dreialu a darparu cyfarpar lle y bo'n briodol ac argymell strategaethau cymorth, a all gynnwys ymyrraeth, hyfforddiant ac adolygu priodol. Lle y bydd angen offer 'technoleg isel' neu gyfarpar llai cymhleth, rhaid i hyn gael ei ddarparu mor agos i gartrefi pobl â phosibl gan y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith lleol, gan amlaf gan y bwrdd iechyd lleol neu'r ymddiriedolaeth leol: ond gallai trefniadau lleol gynnwys sefydliadau partner. Bydd angen system gynaliadwy effeithiol ar gyfer caffael, cynnal a chadw a storio cyfarpar technoleg isel mewn gwasanaethau lleol. Dylai hyn gynnwys unrhyw asesiad, arddangosiad o offer treialu.
- 5.2 Pan fo angen defnyddio cyfarpar uwch-dechnoleg cymhleth, sy'n gofyn am arbenigedd staff arbenigol, darperir hyn drwy'r gwasanaeth arbenigol cenedlaethol AAC sy'n rhan o'r Gwasanaeth Technoleg Gynorthwyol Electronig (EAT), a ddarperir ar hyn o bryd fel gwasanaeth a gomisiynir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd yr unigolyn sydd ag anghenion cyfathrebu yn parhau i dderbyn cysylltiadau a chymorth gweithredol gan ei dîm iechyd lleol yn ôl yr angen. Bydd staff o wasanaeth arbenigol cenedlaethol AAC yn gweithio gyda'r tîm lleol i sicrhau bod ymyriadau personol a gwerth uchel yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Efallai y bydd y broses yn gofyn am dreialu opsiynau amgen ar gyfer cyfarpar er mwyn sicrhau'r ateb cynaliadwy cywir.
- 5.3 NODYN: Bwriad y llwybr hwn yw os yw person yn cael ei gyfeirio'n uniongyrchol at wasanaeth arbenigol cenedlaethol AAC heb i wasanaeth therapi lleferydd ac iaith lleol gael ei gynnwys neu at elfennau eraill o'r gwasanaeth EAT ac mae anhawster cyfathrebu yn cael ei nodi, gan amlaf bydd staff EAT yn gofyn i'r cyfeiriwr gyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith lleol ar gyfer asesiad cychwynnol (yn ddelfrydol gan gopïo'r gwasanaeth lleferydd ac iaith lleol i mewn) yn unol â'r llwybr hwn. Bydd hyn yn sicrhau nad yw gwasanaeth arbenigol cenedlaethol AAC/EAT yn asesu pobl y bydd angen offer technolegol isel yn unig arnynt neu nad ydynt yn barod eto ar gyfer offer uwch-dechnoleg. Fodd bynnag, dylid defnyddio barn glinigol bob amser yn yr achosion hyn i sicrhau nad yw unigolyn dan yr amgylchiadau hyn o dan anfantais oherwydd prosesau a throsglwyddiadau dianghenraid.

Diagram 1: Llwybr Cyfathrebu Cynyddol ac Amgen (AAC)

